# DATGANIAD RHESYMAU

1. **MAN PARCIO POBL ANABL YN UNIG, 54a VICTORIA STREET, Y FENNI**
   Mae'r adran drefol o'r heol hon yn dioddef o straen parcio difrifol barhaus ac mae preswylydd yn yr eiddo hwn yn ddeiliad bathodyn glas cofrestredig ac yn cael problemau gyda'r gallu i barcio'n agos at y cyfeiriad oherwydd lefelau difrifol y straen parcio ar y briffordd hon. Bydd y Man Parcio Pobl Anabl ar gael yn gyfreithiol i bob deiliad bathodyn glas i'w ddefnyddio'n gyfreithiol, fodd bynnag bydd hefyd yn cynorthwyo'r preswylydd yn y cyfeiriad hwn.

2. **MAN PARCIO POBL ANABL YN UNIG, FOSTERVILLE CRESCENT, Y FENNI**
   Mae'r ffordd drefol hon yn dioddef o straen parcio difrifol barhaus ac mae preswylydd yn y cilgant hwn yn ddeiliad bathodyn glas cofrestredig ac yn profi problemau gyda'r gallu i barcio ger eu cyfeiriad, oherwydd y lefelau difrifol o straen parcio ar y briffordd hon. Bydd y Man Parcio ar gael yn gyfreithiol i bob deiliad bathodyn glas ei ddefnyddio'n gyfreithiol, fodd bynnag, bydd hefyd yn cynorthwyo'r preswylydd deiliad bathodyn glas sy'n byw yn Fosterville Crescent.

3. **HEOL HENFFORDD, TREFYNWY**
   Derbyniodd y Cyngor bryderon gan gynrychiolwyr y gymuned am lefelau amhriodol a gormodol o barcio ar y briffordd dosbarth A yma yn Nhrefynwy. Mae'r cyngor hefyd wedi derbyn cwynion am gerbydau'n parcio gan achosi rhwystr ar draws neu'n rhy agos at allfannau cerbydau gan felly gyfyngu'r gallu i weld ar hyd Heol Henffordd i breswylwyr sy'n gadael lonydd rhannu neu breifat eu cartrefi. Mae presenoldeb cerbydau wedi parcio hefyd yn achosi oedi gormodol ar draffig yn defnyddio Heol Henffordd sy'n briffordd dosbarth A cymharol gul ac mae traffig yn gorfod ildio i draffig yn y cyfeiriad arall oherwydd presenoldeb cerbydau wedi parcio ar hyd y briffordd yn y lleoliadau a ddangosir yn y cynnig hwn. Cynigir cynllun parcio trwydded breswylwyr yn unig hefyd ar gyfer rhifau 30, 32 a 34 Heol Henffordd.

4. **COMIN Y FELIN, LÔN PENNYFARTHING, THE WILLOWS, GWNDY**
   Mae trigolion lleol wedi codi pryderon diogelwch ffyrdd gyda'r Cyngor ynghylch cerbydau'n parcio'n amhriodol ac yn beryglus ar gyffordd Comin y Felin gyda Pennyfarthing Lane ac ar gyffordd The Willows gyda Pennyfarthing Lane, ac felly'n cyfyngu'n ddifrifol ar allu defnyddwyr priffyrdd i yrru'n ddiogel i mewn ac allan o Pennyfarthing Lane. Er budd diogelwch ffyrdd, bwriedir gwahardd aros ar unrhyw adeg yng nghyffiniau'r ddwy gyffordd hyn.

5. **ST. MAUR GARDENS, CAS-GWENT**
   Mae trigolion lleol wedi codi pryderon diogelwch ffyrdd gyda'r Cyngor ynghylch cerbydau'n parcio'n amhriodol ac yn beryglus ar gyffordd St. Maur Gardens gyda

Welsh Street, ac felly’n cyfyngu'n ddifrifol ar olwg a gallu defnyddwyr priffyrdd i yrru’n ddiogel i mewn ac allan o St. Maur Gardens. Er budd diogelwch ffyrdd, bwriedir gwahardd aros ar unrhyw adeg yng nghyffiniau'r gyffordd hon.

**6. LÔN BRYN HARDWICK, CAS-GWENT**

Mae'r Aelod Etholedig lleol a thrigolion lleol wedi codi pryderon diogelwch ffyrdd gyda'r Cyngor o ran cerbydau'n parcio'n amhriodol ac felly’n rhwystro llif rhydd y traffig (gan gynnwys cerbydau argyfwng) ar ran o Lôn Bryn Hardwick gan gynnwys ar ei chyffordd gyda'r A48 Bryn Hardwick. Mae trigolion hefyd wedi codi pryderon ynghylch mynediad cerbydau, sy'n cael eu rhwystro oherwydd cerbydau sydd wedi'u parcio. Lôn gymharol gul o fewn amgylchedd preswyl yw Lôn Bryn Hardwick. Er budd diogelwch ffyrdd a sicrhau llif rhydd y traffig gan gynnwys cerbydau'r gwasanaethau brys, bwriedir gwahardd aros ar ei gyffordd gyda Bryn Hardwick ac ar ran o Lôn Bryn Hardwick.

**7. TERFYN PWYSAU 3 TUNNELL, HEN BONT GWY, CAS-GWENT**

Mae asesiad strwythurol wedi'i gynnal o strwythur y bont. Mae'r asesiad strwythurol wedi asesu terfyn strwythurol diogel o 3 tunnell o ran uchafswm pwysau gros cerbydau. Er mwyn diogelu cyfanrwydd adeileddol y bont ac i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n ddiogel gan ddefnyddwyr y briffordd, cynigir gweithredu terfyn o 3 tunnell, o ran uchafswm pwysau gros cerbydau, ar Hen Bont Gwy yn Sir Fynwy ac yn Sir Gaerloyw. Mae Cyngor Sir Gaerloyw hefyd yn cael eu hymgynghori ar y terfyn pwysau strwythurol arfaethedig hwn.

8. **GWAHARDD TROI I’R DDE O HEOL TREFYNWY I GEFNFFORDD YR A40 YN RHAGLAN.**

Mae cynrychiolwyr etholedig cymunedol lleol a thrigolion wedi codi pryderon gyda'r Cyngor a gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â lefel y diogelwch ffyrdd ac achosion gwrthdrawiad traffig ffordd ar ffordd ddeuol yr A40 ar ei chyffordd â Heol Trefynwy, Rhaglan. Mae'r pryderon yn ymwneud â cherbydau sy'n teithio tua'r gogledd ac yn bwriadu troi i'r dde a chroesi ffordd ddeuol yr A40 o Heol Trefynwy, Rhaglan.
Mae sawl gwrthdrawiad traffig ffordd wedi'u cofnodi rhwng cerbydau oedd yn teithio tua'r gorllewin ar yr A40 a cherbydau a oedd yn croesi’r A40 i gyfeiriad y gorllewin gan deithio tua'r gogledd wrth adael Heol Trefynwy. Bwriedir gwahardd cerbydau rhag troi i'r dde ar yr A40 (a thrwy hynny atal croesfan gerbydol yr A40 i gyfeiriad y gogledd) o Heol Trefynwy, a bydd ond hawl i gerbydau droi i'r chwith o Heol Trefynwy, Rhaglan i gerbytffordd orllewinol yr A40.

**9. HEOL Y CRUG, TREETOPS, PARC OAKLANDS, PORTH SGIWED**

Mae'r Aelod etholedig lleol a thrigolion lleol wedi codi pryderon diogelwch ffyrdd gyda'r Cyngor ynglŷn â cherbydau'n parcio'n amhriodol ac yn beryglus ar hyd rhannau o Heol y Crug (gan gynnwys yng nghyffiniau mynedfa Ysgol Archesgob

Rowan Williams yr Eglwys yng Nghymru), ar gyffordd Heol y Crug gyda Treetops ac ar gyffordd Heol y Crug gyda Pharc Oaklands, a thrwy hynny effeithio'n ddifrifol ar lif rhydd y traffig a lefel y diogelwch ffyrdd. Er mwyn gwella'r diogelwch ffyrdd a sicrhau llif rhydd y traffig, mae angen gwahardd aros ar unrhyw adeg ar rannau o Heol y Crug, Treetops a Pharc Oaklands. Er mwyn sicrhau llif rhydd y traffig ar gyfnodau penodol yng nghyffiniau Neuadd Eglwys Porth Sgiwed (gan hefyd ganiatáu parcio ar gyfnodau penodol i ddefnyddwyr y neuadd) mae angen gwahardd aros o flaen y neuadd o 8am i 5pm, (dydd Llun i ddydd Gwener yn unig).

**10. SGWÂR MAGWYR, MAGWYR**

Cafodd ran o Sgwâr Magwyr ei amgylchynu a'i gau yn y gorffennol yn ystod cyfnod pandemig Covid 19 a chodwyd pabell fawr i hwyluso cynulliadau cymdeithasol a chymunedol yn y Sgwâr. Er mwyn ffurfioli'r trefniant hwn, cynigir gwahardd gyrru (heblaw am lwytho) yng nghyffiniau'r babell fawr a darparu dau le parcio i bobl anabl yn unig yn y Sgwâr, fel y dangosir ar ddarlun rhif 2029.

**11. MAES PARCIO MAGWYR GYDA GWNDY, GWNDY.**

Ar hyn o bryd mae Canolfan Gymunedol newydd yn cael ei hadeiladu yn y lleoliad hwn. Er mwyn cefnogi'r defnydd a gweithredu'r Ganolfan Gymunedol yn llwyddiannus, mae angen cyfyngu parcio o fewn y maes parcio i arhosiad o 3 awr ar y mwyaf. Bydd cyfyngiadau uchafswm caniatâd o 3 awr o barcio yn sicrhau trosiant o gerbydau sy'n defnyddio'r ardal parcio, ac o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n ymweld â'r Ganolfan Gymunedol.

**12. STRYD Y CASTELL, STRYD TUDOR, Y FENNI**.

Ar hyn o bryd mae gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg yn cyfyngu ar Stryd y Castell ac ar ran o Stryd Tudor, fodd bynnag mae cerbydau sydd wedi parcio, gan gynnwys deiliaid bathodyn glas, yn achosi rhwystr i lif rhydd y traffig a hefyd yn rhwystro'r briffordd yng nghyffiniau'r fynedfa i ddepo'r Post Brenhinol ar Stryd y Castell. Er mwyn sicrhau llif rhydd y traffig a'r mynediad diogel i mewn ac allan o ddepo'r Post Brenhinol, mae angen gwahardd llwytho a dadlwytho cerbydau (o fewn cyfnod amser penodol ar ddiwrnodau penodedig yn unig) yn Stryd y Castell a rhan o Stryd Tudor.

Mae hawl gan ddeiliaid bathodynnau glas barcio am ddim mewn unrhyw gilfan wedi'i marcio ym maes parcio cyfagos Stryd y Castell, ar yr amod bod y bathodyn glas yn cael ei arddangos yn glir yn y cerbyd.

Nid yw deiliaid bathodyn glas wedi'u heithrio rhag y cyfyngiadau a'r gwaharddiad llwytho a dadlwytho .

**13. HEOL YR EGLWYS, CIL-Y-COED**

Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Fynwy wedi cwblhau cynllun gwella priffyrdd yn Heol yr Eglwys a oedd yn cynnwys cyfleusterau croesfannau anffurfiol newydd i gerddwyr a deunyddiau arwynebol newydd ar y ffordd.
Darparwyd nodwedd groesfan well i gerddwyr ar Heol yr Eglwys yng nghyffiniau'r fynedfa sy'n arwain at Gastell Cil-y-coed, fodd bynnag, mae pryderon wedi'u codi gan Gynrychiolwyr Cymunedol ynghylch parcio i gerbydau yng nghyffiniau'r groesfan newydd i gerddwyr, ac effaith andwyol diogelwch cerddwyr a ffyrdd oherwydd presenoldeb cerbydau wedi'u parcio yn y lleoliad hwn.
Er mwyn cefnogi croesi Heol yr Eglwys yn ddiogel gan gerddwyr yn y lleoliad hwn, bwriedir gwahardd parcio ar unrhyw adeg yn y rhan hon o Heol yr Eglwys.

**14. HEOL YR ORSAF A FFORDD DDIENW, ROGIET**

Mae’r Cyngor wedi adeiladu maes parcio newydd yn ddiweddar yng ngorsaf Reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren ac er mwyn sicrhau bod y traffig yn llifo’n rhwydd i ac o’r maes parcio newydd ac ar y priffyrdd cyfagos, mae angen darparu cyfyngiad Gwahardd Aros ar Unrhyw Amser. Mae’r briffordd gyfagos hefyd yn darparu mynediad i swyddfa swyddogion priffyrdd Llywodraeth Cymru sy’n ffinio â thraffordd yr M4.